Ar gyfer Donnalee Alford
1192 Laser & Beauty
Uned 2 Stadiwm Liberty
Glandŵr
Abertawe
SA1 2FA

Llinell Uniongyrchol: 0300 062 8163
Ffacs: 0300 062 8387
E-bost: HIWInspections@wales.gsi.gov.uk

11 Mehefin 2014

Annwyl Ms Alford,

**Parthed: Ymweliad dirybudd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â salon 1192 Laser and Beauty ar 10 Mehefin 2014.**

Fel y gwyddoch, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ymweliad dirybudd â salon 1192 Laser and Beauty ar 10 Mehefin 2014.

**Cefndir**

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd yn salon 1192 Laser and Beauty, Abertawe ar 10 Mehefin 2014. Roedd yr ymweliad arolygu'n canolbwyntio ar ddadansoddi ystod o ddogfennaeth, trafod gyda'r Rheolwr ac aelodau eraill o staff, archwilio cofnodion cleifion a dogfennaeth arall a thaith o amgylch y safle.

Cafwyd fod y clinig yn lân ac wedi'i offeru'n dda gydag amrywiaeth o offer yn y lleoliad. Roedd angen adolygu'r Datganiad o Ddiben ac felly hefyd y Canllaw i Gleifion gan mai 2009 oedd y dyddiad ar y dogfennau hyn.

Roedd bodlonrwydd cleientiaid yn cael ei adolygu trwy ffonio cleientiaid ar ôl pob triniaeth a chafwyd fod y rhain yn dynodi bod pobl ar y cyfan yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Nid oedd unrhyw gwynion wedi cael eu cyfleu dros y flwyddyn ddiwethaf. Efallai y byddai'n fwy priodol defnyddio holiadur i gleientiaid a fyddai'n gallu cael ei gwblhau'n ddienw. Trafodwyd hyn a dywedwyd wrthym mai ychydig o holiaduron oedd yn cael eu cwblhau pan oedd y system hon yn cael ei defnyddio'n flaenorol a bod adborth dros y ffôn yn cael ei ystyried yn fwy effeithiol.

Cafwyd fod cofnodion cleientiaid yn gyflawn gyda thystiolaeth o wybodaeth am hanes meddygol a ffurflenni cydsynio wedi'u llofnodi ond roedd enwau cleientiaid ar goll mewn rhai ohonynt a thrafodwyd yr angen am archwiliad rheolaidd o gofnodion ar adeg yr ymweliad. Roedd Cofrestr o driniaethau a roddwyd.

Roedd angen adolygu a diweddaru nifer o bolisïau gan y dylai'r rhain fod wedi cael eu hadolygu ar 2/2013. Nid oedd systemau ar gyfer addysg orfodol gan gynnwys: tân, rheoli data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), iechyd a diogelwch, rheoli heintiau, codi a chario ac ymdrin â digwyddiadau anffafriol ar gael i'w hadolygu ar adeg yr ymweliad a chawsom ein hysbysu mai dim ond hyfforddiant tân oedd wedi cael ei gynnal dros y 3 blynedd ddiwethaf. Nid oedd ffeiliau staff ar gael i'w hadolygu yn ystod yr ymweliad hwn.

Nid oedd archwiliad o wasanaethau glanhau a rheoli heintiau wedi cael ei gynnal ac nid oedd polisïau ar gyfer dillad golch na chadw tŷ a thrafodwyd yr angen am y rhain ar adeg yr ymweliad.

**Y Safle, yr Amgylchedd a'r Cyfleusterau**

Roedd y dystysgrif cofrestru ar gyfer y safle'n caniatáu defnyddio tri pheiriant ar gyfer triniaethau a enwid yn benodol. Roedd y peiriannau hyn wedi'u rhestru fel laser dosbarth 4 N Lite-V, peiriant Golau Pwls Dwys Chromolite a laser dosbarth 4 Nd:Yag Q-Lite Q-Switch. Roedd y peiriant olaf wedi'i gyfnewid am beiriant laser dosbarth 4 Cynosure Revlite ar 9 Hydref 2013, ac nid oedd hyn yn cael ei adlewyrchu ar y dystysgrif cofrestru gyfredol a oedd yn cael ei harddangos. Hefyd, dim ond rhan o'r dystysgrif cofrestru oedd yn cael ei harddangos, ac nid oedd gwybodaeth am gyfeiriad y busnes, na'r rheolwr cofrestredig. Hefyd, roedd peiriant Golau Pwls Dwys Phaserepl yn bresennol yn yr ystafell driniaeth, a chawsom ein hysbysu ei fod yno am gyfnod prawf yn unig i staff ei ddefnyddio, ac nid i roi unrhyw driniaeth i gleientiaid. Roedd y peiriannau hyn i gyd wedi'u lleoli o fewn yr ystafell driniaeth, sydd yn y cefn ar lawr gwaelod y safle.

Hefyd, darganfuwyd laser dosbarth 3B Chromogenics i-lipo pellach yn yr ystafell triniaeth wyneb, a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer triniaeth colli bloneg ac ailffurfio'r corff. Nid oedd y peiriant hwn a'r broses driniaeth gysylltiedig wedi'u rhestru ar y Dystysgrif Cofrestru.

Roedd y cofrestrau triniaeth ar gyfer y laser N-Lite V, a'r laser Golau Pwls Dwys Chromolite yn gywir, ond roedd y gofrestr wreiddiol ar gyfer y laser Q-lite wedi cael ei chyfuno â'r gofrestr ar gyfer y laser Cynosure Revlite heb unrhyw gofnod i ddynodi pryd y digwyddodd y newid hwn. Nid oedd unrhyw gofrestrau triniaeth ar gyfer y peiriant Phaserepl dros dro, na'r peiriant Chromogenics i-lipo a oedd wedi'i leoli yn yr Ystafell Triniaeth Wyneb.

Nid oedd unrhyw dystysgrifau hyfforddiant cyfredol, na thystysgrifau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth yn cael eu harddangos, a chawsom ein hysbysu bod yr ystafell driniaeth wedi cael ei hailaddurno'n ddiweddar ac y byddai'r rhain felly mewn ffeiliau personol, a oedd wedi'u rhoi dan glo. Nid oedd tystiolaeth o unrhyw gontract nac adroddiad asesu safle gan Ymgynghorydd Diogelwch Laser (LPA) penodedig ac nid oedd cofnodion cynnal a chadw na chofnodion calibro ar gyfer unrhyw beiriannau, ac

eithrio'r un ar gyfer y peiriant Cynosure, dyddiedig 4 Rhagfyr 2013. Nid oedd unrhyw gopïau cyfredol o'r Protocolau Meddygol ar gael, na chopïau o unrhyw Reolau Lleol, yr oedd staff wedi llofnodi i ddweud eu bod yn eu derbyn. Ni chafodd sbectols diogelwch eu gwirio, gan ystyried y rheolau lleol cyfredol, gan nad oedd y rhain ar gael. Dylid adolygu arwyddion y tu allan i'r ystafell driniaeth ar y cyd â'r Ymgynghorydd Diogelwch Laser. Nid oedd tystiolaeth o Asesiad Risg Tân cyfredol ar gyfer y safle. Dim ond un diffoddwr tân domestig bach oedd yn bresennol yn yr ystafell a rhoddwyd cyngor i osod y diffoddwr C02 yn y brif dderbynfa, ar bwys drws yr ystafell driniaeth.

Gan fod yr ystafelloedd yn cael eu prydlesu, roedd gosodiadau gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u cadw trwy gontractau gyda landlord tir, ac nid oedd copïau o'r rhain ar gael.

**Fe wnaeth yr ymweliad amlygu meysydd sy'n nodedig ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:**

- Mae'r gofal yn berson-ganolog, ac mae preifatrwydd, urddas ac unigoliaeth yn cael eu hystyried
- Roedd cofnodion ar gyfer cleifion unigol yn cynnwys hanes meddygol a ffurflen gydsynio. Mae cleifion yn llofnodi, cyn cael triniaeth, i gadarnhau nad yw eu hamgylchiadau meddygol wedi newid

**Pryderon:**

- Nid oedd systemau ar gyfer addysg orfodol gan gynnwys Tân, Rheoli Data, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA), iechyd a diogelwch, rheoli heintiau a chodi a chario ar gael i'w hadolygu ar adeg yr ymweliad
- Roedd angen adolygu a diweddaru'r holl bolisïau ac roedd rhai polisïau a oedd yn ofynnol ond na ddaethpwyd o hyd iddynt
- Roedd angen adolygu'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Gleifion
- Nid oedd ffeiliau staff ar gael i'w hadolygu
- Mae peiriannau triniaeth yn bresennol nad ydynt wedi'u rhestru ar y Dystysgrif Cofrestru
- Nid oes unrhyw gofnodion cynnal a chadw na chalibro ar gael ar gyfer y peiriannau triniaeth
- Nid oes tystysgrifau hyfforddiant ar gael ar gyfer gweithredwyr y peiriannau triniaeth
- Nid oedd gwybodaeth ar gael am benodiad cyfredol Ymgynghorydd Diogelwch Laser, nac unrhyw adroddiad cyfredol ar archwiliad o'r safle
- Nid oedd Cofrestrau Triniaeth ar gael ar gyfer pob peiriant triniaeth
- Nid oedd Asesiad Risg Tân cyfredol ar gael

Fe wnaeth yr ymweliad amlygu'r materion isod a chafodd y rhain eu darparu mewn trosolwg ar lafar i'r aelod o staff, ar 10 Mehefin 2014

**Gofynion newydd o ganlyniad i'r arolygiad hwn:**

| **Camau Gweithredu sy'n Ofynnol** | **Amserlen ar gyfer eu cwblhau** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|---|
| Roedd yr holl bolisïau wedi dyddio ac roedd angen eu hadolygu. | 48 Awr | Rheoliad 9 (1) |
| Ni ddaethpwyd o hyd i'r Polisi Gweithwyr Unigol. | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e) |
| Ni ddaethpwyd o hyd i Bolisi Chwythu'r Chwiban. | 48 Awr | Rheoliad 9(2)(a)(c) |
| Roedd angen adolygu'r polisi Llywodraethu Clinigol. | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(o) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi Preifatrwydd ac Urddas. | 48 Awr | Rheoliad 18 (1)(a)(b) |
| Roedd angen adolygu Polisïau Rheoli Heintiau | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e)(k)(n) a 15(8)(a)(b) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi a System Rheoli Risgiau. | Ar unwaith ac yn barhaus | Rheoliad 9(1) (e) (k) |
| Roedd angen adolygu'r Polisïau Iechyd a Diogelwch | 48 Awr | Rheoliad 9(1) (e) (k) |
| Nid oedd tystiolaeth o hyfforddiant gorfodol ar gael i'w hadolygu. | 3 mis | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2) (a) (b) |
| Mae angen adolygu a diweddaru'r Datganiad o Ddiben. | 24 Awr | Rheoliad 8 |
| Mae angen adolygu'r Canllaw i Gleifion. | Un Mis | Rheoliad 7 |
| Ni ddaethpwyd o hyd i bolisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed ac mae angen adolygu a diweddaru'r gweithdrefnau | 48 Awr | Rheoliad 16 (1) (3)(a) |
| Roedd angen adolygu'r polisi ar gyfer damweiniau a digwyddiadau | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e)(k)(n) |

| Camau Gweithredu sy'n Ofynnol | Amserlen ar gyfer eu cwblhau | Rhif y Rheoliad |
|---|---|---|
| Ni ddaethpwyd o hyd i Bolisi Codi a Chario. | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi Cwynion | 48 Awr | Rheoliad 24 (1) |
| Roedd angen adolygu'r holl bolisïau adnoddau dynol, gan fod rhai wedi dyddio a bod angen gwneud rhai eraill yn lleol i'r sefydliad | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e)(h) ac 20(3)(a)(b) ac 20(4) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi Dadebru | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e) |
| Ni ddaethpwyd o hyd i bolisi tân | 48 Awr | Rheoliad 9(f) a 26(4)(c)(d)(e) |
| Roedd angen adolygu'r Polisi Cydsynio | 48 Awr | Rheoliad 9(4)(a)(b)(c) |
| Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw bolisi ar gyfer rheoli ymddygiad heriol. | 48 Awr | Rheoliad 9(1)(e) |
| Nid oedd unrhyw gofnodion ar gael o arfarniadau staff. | 48 Awr | Rheoliad 20(1)(a)(b) ac 20 (2)(a)(b) |
| Nid oedd ffeiliau personél staff ar gael i'w hadolygu | Ar unwaith ac yn barhaus | Rheoliad 20(1)(a) a 21 (2)(d) |
| Nid oedd unrhyw bolisi Cadw Tŷ, amserlenni glanhau na gweithdrefnau archwilio | 48 Awr | Rheoliad 9(3)(a)(b)(c)(d) a 26 (2)(a) |
| Ni ddaethpwyd o hyd i bolisi dillad golch. | 48 Awr | Rheoliad 26(1)(a) |
| Hysbysu'r adran gofrestru yn AGIC ynghylch manylion y peiriannau a ddefnyddir ar hyn o bryd, a'u triniaethau cysylltiedig. | 48 Awr | Rheoliad 6(3) |
| Arddangos manylion llawn Tystysgrifau Cofrestru a ddyroddwyd gan AGIC | 48 Awr | Rheoliad 6(3) |

| **Camau Gweithredu sy'n Ofynnol** | **Amserlen ar gyfer eu cwblhau** | **Rhif y Rheoliad** |
|---|---|---|
| Sicrhau bod y cofrestrau triniaeth cywir yn bodoli | 48 Awr | Rheoliad 45(2) (a)(b)(c) |
| Darparu copïau o dystysgrifau hyfforddi cyfredol ar gyfer gweithredwyr cymeradwy'r peiriannau triniaeth | 48 Awr | Rheoliad 45(3) (a)(b)(c)(d)(e) |
| Darparu tystiolaeth o benodiad cyfredol Ymgynghorydd Diogelwch Laser | 48 Awr | Rheoliad 45(1) |
| Darparu copi o adroddiad cyfredol ar archwiliad o'r safle gan Ymgynghorydd Diogelwch Laser. | 48 Awr | Rheoliad 45(1) |
| Darparu copïau o adroddiadau cynnal a chadw a chalibro ar gyfer yr holl beiriannau | 48 Awr | Rheoliad 45(1) |
| Darparu copïau cyfredol o Brotocolau Meddygol ar gyfer triniaethau. | 48 Awr | Rheoliad 45(1) |
| Darparu copïau cyfredol o Reolau Lleol ar gyfer peiriannau a ddefnyddir ar hyn o bryd | 48 Awr | Rheoliad 45(1) |
| Darparu copi o'r Asesiad Risg Tân cyfredol | 48 Awr | Rheoliad 26(4)(f) |
| Darparu copïau o'r ddau adroddiad cynnal a chadw diwethaf ar gyfer y gosodiadau larwm tân a goleuadau argyfwng. | 2 Wythnos | Rheoliad 26(4)(a) |
| Darparu copi o'r adroddiad gwifrau trydanol a phrofion PAT diweddaraf. | 2 Wythnos | Rheoliad 26(2)(a) |

| **Argymhellion Arfer Da:** |
|---|
| Symud y diffoddwr tân C02 at y wal sydd yn union y tu allan i'r ystafell driniaeth. |

A fyddech cystal ag anfon cynllun gweithredu i hiw@wales.gsi.gov.uk erbyn dydd Mercher 18 Mehefin 2014 os gwelwch yn dda

Hoffai Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ddiolch i aelodau o staff am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad.

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn ddiymdroi os byddwch yn dymuno trafod cynnwys y llythyr hwn.

Yn gywir



**Phil Price**
Rheolwr Arolygu